Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru · Wales

# Beth sy'n digwydd os gallwch chi gymryd camau cyfreithiol yn erbyn y corff cyhoeddus rydych chi'n cwyno amdanynt

## Cyflwyniad

Mae'r daflen ffeithiau hon yn esbonio sut yr ydym yn edrych ar gwynion pan efallai fod gennych (neu'r unigolyn sy'n gweithredu ar eich rhan) rwymedi cyfreithiol ar gael yn y Llysoedd.

Dyma rai enghreifftiau o rwymedïau cyfreithiol a allai fod ar gael os ydych yn anfodlon â'r ffordd y mae corff cyhoeddus yng Nghymru wedi eich trin:

- hawliad yn ymwneud ag esgeuluster clinigol mewn achosion iechyd
- hawliad yn ymwneud â thorri contract os yw corff cyhoeddus wedi methu â gwneud rhywbeth y mae ef o dan rwymedigaeth gytundebol i'w wneud
- neu hawliad yn ymwneud ag iawndal os yw corff cyhoeddus (neu rywun sy'n gwneud gwaith ar ei ran) wedi achosi difrod i eiddo rhywun.

**Y gyfraith sy'n berthnasol pan mae'n ymddangos bod dewis gennych i fynd ar drywydd rhwymedi cyfreithiol yn erbyn corff cyhoeddus**

Mae Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 yn dweud **na allwn** ymchwilio i gwynionam gyrff cyhoeddus yn cael pethau'n anghywir os oes gennych chi, neu os allai fod gennych, rwymedi cyfreithiol trwy'r Llysoedd.

Mae **eithriad** i'r rheol hon, sef os rydym yn fodlon bod amgylchiadau eich achos yn golygu nad yw'n rhesymol disgwyl ichi gymryd, neu ddisgwyl i chi fod wedi cymryd,

camau cyfreithiol. Os felly, gallwn ymchwilio i gwynion am gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn cael pethau'n anghywir yn y ffordd arferol.

Am ragor o wybodaeth, darllenwch ein taflen ffeithiau 'Yr hyn a wnawn pan dderbyniwn eich cwyn am gorff cyhoeddus yng Nghymru' ar y dudalen 'Taflenni Ffeithiau', o dan y tab 'Amdanom ni'.

## Beth a wnawn os yw'n ymddangos o'ch cwyn bod rhwymedi cyfreithiol ar gael ichi

Er mwyn i ni allu penderfynu'n deg a yw'n rhesymol ichi gymryd camau cyfreithiol yn erbyn y corff cyhoeddus rydych yn cwyno amdano, gallwn ofyn i chi am wybodaeth fel:

- eich amgylchiadau personol a'r rhesymau pam nad ydych chi'n meddwl y gallwch chi gymryd camau cyfreithiol yn erbyn y corff cyhoeddus
- y rhwymedi neu ganlyniad rydych chi'n edrych amdano
- a ydych chi wedi gofyn i gyfreithiwr a/neu a oes gennych yswiriant cyfreithiol neu gymorth cyfreithiol i helpu i ariannu unrhyw gamau cyfreithiol

## Materion i gadw mewn cof

Gellir canfod gwybodaeth fanylach ar ba gamau y gallwn ei ofyn i gorff cyhoeddus eu cymryd i ddatrys eich cwyn yn ein taflen ffeithiau Rhwymedïau, ar y dudalen 'Taflenni Ffeithiau', o dan y tab 'Cwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus – ein proses'..

Os mai rhwymedi y mae'r Llysoedd yn ei ddyfarnu'n gyffredinol yw'r un rydych yn ei geisio, yna gallwn ddod i'r casgliad mai achos Llys yw'r llwybr priodol i chi ei ddilyn. Enghraifft o hyn yw iawndal ariannol sylweddol. Os ydych yn ceisio sawl rhwymedi gwahanol, er enghraifft, ymddiheuriad, atebion i'ch cwestiynau am y ffordd y

cawsoch eich trin ac iawndal ariannol, byddwn yn ystyried yn ofalus y wybodaeth a ddarparwch wrth benderfynu a yw'n briodol i ni ystyried eich cwyn.

Os dewiswch beidio â chymryd camau cyfreithiol pan ymddengys bod hwn yn ddewis a oedd ar gael ichi ar adeg y digwyddiadau rydych yn cwyno amdanynt, bydd hyn yn cael ei ystyried.

## Cysylltu â ni

Os ydych chi'n ansicr a fyddwn yn gallu ystyried eich cwyn, cysylltwch â ni, drwy ffonio 0300 790 0203.

# Easy Read

Unioni Pethau - Beth fydd yn digwydd os yw'n well unioni'ch cwyn trwy fynd i'r llys